Chwaraeon

Cymerwyd rhan yng nghystadlaethau pêl-rwyd, trawsgwlad a phêl-droed yr Urdd yn ddiweddar. Mwynhawyd y cystadlu yn fawr er nid yn ennill bob tro. Fe lwyddodd Danielle Pryce, Lydia Shaw, Hannah Read a Sian Evans i fynd drwyddo i drawsgwlad y sir a fydd yn cael ei gynnal yn Aberaeron maes o law.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Leigh Jenkins a John James ar eu dewis i academi pêl-droed. Mae Dylan Morgan wedi ei ddewis yn barod i chwarae i Aberystwyth. Beth fydd dyfodol y tri tybed?

Annwyl bawb

Rydw i yn ysgrifennu i ddweud wrthoch chi am dîm 1af Ysgol Penrhyn-coch. Mae'r tîm yn ymarfer o 4.00y.h. tan 5.30y.h. bob nos Iau.

Y tymor yma, yr wyf newydd ymuno â'r tîm 1af, ac wedi cael un twrnament a 2 gêm iawn yn erbyn Siarcod (Ysgol Gymraeg) ac wedi gorffen yn gyfartal 1-1. Yn yr ail gêm fe gollon ni 4-1 yn erbyn Barcud (tîm pentref Tregaron).

Rwy'n mwynhau chwarae hoci ac yn hoffi sgorio. Mae'r tîm i gyd yn chwarae'n dda iawn, ac yn ei fwynhau. Rydym newydd cael cit newydd sydd yn goch a melyn gyda bathodyn Ysgol Penrhyn-coch arno. Rwy'n credu bod gobaith i'r tîm!

Manon Reynolds
Ysgol Penrhyn-coch